# Rhaglen brechu plant rhag y ffliw 2015-16
# Gwybodaeth ar gyfer ysgolion cynradd

Mae'r wybodaeth hon wedi ei chynllunio ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion er mwyn ateb cwestiynau am frechlyn y ffliw fydd yn cael ei gynnig i blant mewn ysgolion yr hydref hwn. Nid y bwriad yw i chi lungopïo'r ddogfen hon i'w rhoi i blant neu rieni/gwarcheidwaid am y byddant yn derbyn gwybodaeth ar yr adeg briodol gan y tîm gofal iechyd.

## Cefndir y rhaglen

Ym mis Medi 2013, cafodd rhaglen brechu plant rhag y ffliw arferol ei chyflwyno'n raddol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar gyngor arbenigol annibynnol, gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), sy'n cynghori llywodraeth y DU.

Mae plant yn gallu cael y ffliw, yn yr un modd ag oedolion. Mae ffliw ymysg plant yn arwain at absenoldeb o'r ysgol, llawer o ymweliadau â meddygon teulu, derbyniadau i'r ysbyty a gall achosi cymhlethdodau difrifol, yn arbennig ymysg plant ifanc. Bydd brechu plant yn helpu i'w diogelu rhag haint y ffliw a bydd hefyd yn lleihau lledaenu'r ffliw yn yr ysgol ac i deulu a ffrindiau yn y gymuned.

Mae brechlyn y ffliw sy'n cael ei gynnig i'r rhan fwyaf o blant yn frechlyn chwistrell drwynol o'r enw Fluenz® Tetra, sy'n rhoi mwy o amddiffyniad i blant o'i gymharu â brechlynnau'r ffliw trwy bigiad. Mae brechlyn y ffliw ar ffurf chwistrell drwynol wedi cael ei ddefnyddio yn y DU am y ddwy flynedd diwethaf ac mae dros gan mil o ddosys wedi cael eu rhoi. Mae brechlyn tebyg wedi cael ei ddefnyddio yn UDA ers 10 mlynedd. Mae ganddo gofnod diogelwch rhagorol.

## Pa blant fydd yn cael cynnig brechlyn chwistrell drwynol y ffliw yn yr ysgol yr hydref hwn?

Bydd plant yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 neu flwyddyn 2 yn yr ysgol gynradd yn cael cynnig y brechlyn fel rhan o raglen mewn ysgolion yn ystod tymor yr hydref 2015.

## A yw plant cyn-ysgol hefyd yn cael cynnig brechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Bydd plant sydd yn ddwy neu'n dair oed ar 31 Awst 2015 yn cael cynnig y brechlyn yn eu meddygfa (plant a anwyd ar neu rhwng 1 Medi 2011 a 31 Awst 2013).

Gall plant sydd yn bedair oed ar 31 Awst 2015 sydd heb ddechrau'r ysgol, pan fydd brechlyn y ffliw'n cael ei gynnig yn yr ysgol, hefyd gael y brechlyn yn eu meddygfa.

## Pam dim ond rhai plant sy'n cael cynnig brechlyn chwistrell drwynol y ffliw nawr?

Mae plant dwy i chwech oed yn cael cynnig brechlyn y ffliw gan mai'r plant iau hyn sydd fwyaf agored i'r ffliw ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty.

Mae'r rhaglen brechu plant rhag y ffliw yn cael ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn. Fel yr holl raglenni imiwneiddio newydd, bydd y JCVI yn monitro ac yn asesu effaith y rhaglen yn ofalus er mwyn deall y rhaglen yn well a'u chyflwyno'n llawn.

## Pryd mae angen rhoi brechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Er mwy iddynt fod fwyaf effeithiol, bydd angen eu rhoi rhwng Hydref a Rhagfyr cyn i feirysau'r ffliw ddechrau lledaenu yn y gymuned.

Gall feirysau'r ffliw newid a bydd brechlyn yn cael ei wneud bob blwyddyn i gyd-fynd â'r feirysau y disgwylir iddynt ledaenu y gaeaf hwnnw. Bydd angen brechu plant bob blwyddyn i gael yr amddiffyniad gorau rhag y ffliw.

## Pryd cysylltir ag ysgolion?

Bydd eich bwrdd iechyd lleol yn cysylltu ag ysgolion yn eich ardal rywbryd rhwng Mehefin a Medi 2015. Efallai bydd rhywun eisoes wedi cysylltu â chi. Byddant yn esbonio pryd bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn eich ysgol.

## Sut bydd yr ysgol yn gysylltiedig â'r rhaglen brechu rhag y ffliw?

Bydd trefniadau lleol ar gyfer eich ysgol chi yn cael eu gwneud gan eich tîm nyrsio ysgol a fydd yn cysylltu er mwyn cytuno ar yr hyn fydd ei angen. Bydd angen dosbarthu llythyr i rieni, taflen a ffurflen gydsynio i bob disgybl sydd i fod cael y brechlyn, a dylid dychwelyd y ffurflenni cydsynio i'r ysgol cyn y brechu. Bydd angen i ystafell addas fod ar gael ar gyfer y sesiwn frechu. Bydd timau gofal iechyd yn gweithio gydag ysgolion i amharu cyn lleied â phosibl.

Gofynnir i'r ysgolion helpu gyda'r tasgau na all y tîm gofal iechyd eu gwneud yn hawdd fel anfon gwybodaeth gartref gyda'r plant, casglu ffurflenni cydsynio wedi eu cwblhau, mynd â phlant i'r sesiwn imiwneiddio ac oddi yno a chynorthwyo gyda'r gwaith o adnabod plant unigol. Gall fod angen i'r nyrs ysgol gadw cyswllt agos â'r ysgol pan fydd gan blant enwau tebyg.

Bydd cyflenwi'r rhaglen yn dibynnu ar drefniadau lleol a'r ysgolion yn cytuno i gynnal y sesiwn frechu. Os na fydd ysgolion yn cynnal sesiynau, gall fod angen rhyddhau plant o'r ysgol er mwyn iddynt gael eu brechu yn eu meddygfa.

## Pwy fydd yn rhoi brechlyn chwistrell drwynol y ffliw i blant yn yr ysgol?

Caiff y rhaglen ei chyflenwi gan dîm gofal iechyd yn cynnwys nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd a staff gweinyddol. Gallant fod yn rhan o dîm nyrsio ysgol neu imiwneiddio ysgol.

## Sut bydd brechlyn chwistrell drwynol y ffliw yn cael ei roi?

Gelwir brechlyn chwistrell drwynol y ffliw yn Fluenz® Tetra, a chaiff ei roi fel chwistrell. Bydd un chwistrell yn cael ei rhoi i fyny pob ffroen. Bydd y plentyn yn gallu anadlu fel arfer tra bod y brechlyn yn cael ei weinyddu.

Dywed plant sydd wedi cael y brechlyn hwn ei fod yn deimlad coslyd i fyny'r trwyn.

## Beth fydd yn digwydd os bydd plentyn yn anhwylus ar ôl brechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Mae gan frechlyn chwistrell drwynol y ffliw gofnod diogelwch rhagorol, ond fel unrhyw feddyginiaeth, gall nifer fach o bobl deimlo'n anhwylus ar ôl ei gael.

Os bydd plentyn yn anhwylus ar ôl eu brechlyn:

- os yw'r tîm gofal iechyd yn dal ar y safle, gofynnwch iddyn nhw am gyngor uniongyrchol.
- os yw'r tîm gofal iechyd wedi gadael y safle, rheolwch y sefyllfa yn unol â'r polisïau presennol ar gyfer salwch disgyblion yn yr ysgol. Ar ôl gwneud trefniadau priodol ar gyfer y plentyn, cysylltwch â'r tîm gofal iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r digwyddiad.

## A all plant ddal y ffliw o frechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Na. Mae Fluenz® Tetra yn cynnwys feirysau sydd wedi cael eu gwanhau er mwyn ei atal rhag achosi'r ffliw.

Mae'r brechlyn yn helpu plant i ddatblygu imiwnedd yn yr un ffordd â haint naturiol (ond heb y symptomau cas). Oherwydd hyn, mae'r brechlyn chwistrell drwynol yn fwy effeithiol na brechlynnau pigiad, yn arbennig ymysg plant.

## A oes unrhyw sgil-effeithiau i frechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Trwyn yn rhedeg neu'n dynn yw'r sgil-effaith mwyaf cyffredin ar ôl y chwistrell drwynol. Mae brechlyn chwistrell drwynol y ffliw yn ddiogel iawn ac mae wedi cael ei ddefnyddio ers dros 10 mlynedd yn UDA gyda miliynau o ddosys wedi cael eu rhoi.

## A all bob plentyn gael y brechlyn chwistrell drwynol?

**Dylid cyfeirio pob cwestiwn am addasrwydd y brechlyn ar gyfer plant unigol at y tîm gofal iechyd, ni fydd disgwyl i staff yr ysgol ateb cwestiynau'n ymwneud â hyn.**

Bydd y brechlyn chwistrell drwynol yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o blant. Cynghorir rhieni plant na allant gael y brechlyn chwistrell drwynol gan y tîm nyrsio i gysylltu â'u meddygfa i drefnu pigiad o frechlyn y ffliw.

## A yw plant yn cael eu hamddiffyn rhag y ffliw am oes ar ôl cael brechlyn chwistrell drwynol y ffliw?

Na. Gall feirysau'r ffliw newid ac mae brechlyn yn cael ei wneud bob blwyddyn i gyd-fynd â'r feirysau y disgwylir iddynt fynd o gwmpas y gaeaf hwnnw.

Bydd angen i blant gael eu brechu bob blwyddyn er mwyn cael yr amddiffyniad gorau rhag y ffliw.

## Pa mor effeithiol yw brechlyn y ffliw?

Efallai eich bod wedi clywed i frechlyn y ffliw roi llai o amddiffyniad nag arfer y llynedd. Roedd hyn oherwydd cam-baru rhwng y straeniau a ddewiswyd ar gyfer y brechlyn gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), a'r straeniau aeth o gwmpas yn ystod gaeaf 2014/15. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r DU yn awgrymu bod y rhaglen frechu wedi bod yn effeithiol yn atal y ffliw, gan haneru'r perygl o'r ffliw ymysg plant sydd wedi eu brechu.

Trwy gydol y degawd diwethaf, cafwyd paru da ar y cyfan rhwng straeniau'r ffliw a ddewiswyd ar gyfer y brechlyn a'r straeniau a aeth o gwmpas wedi hynny, a disgwylir i'r brechlyn chwistrell drwynol roi'r amddiffyniad gorau sydd ar gael rhag y ffliw.

## Sut bydd cydsyniad rhieni/gwarcheidwaid yn cael ei roi?

Bydd cydsyniad rhieni'n cael ei drefnu trwy lythyr, taflen wybodaeth a ffurflen gydsynio y bydd y tîm gofal iechyd yn ei ddarparu. Yn ddelfrydol, anfonir y wybodaeth hon gartref o'r ysgol gyda'r plentyn. Dylai'r rhiant/ gwarcheidwad lofnodi'r ffurflen gydsynio a'i dychwelyd erbyn y dyddiad cytûn i'r ysgol lle bydd y tîm gofal iechyd yn eu casglu.

## A yw rhieni'n gallu gwrthod i'w plentyn gael ei frechu?

Ydyn. Nid yw brechu'n orfodol. Bydd angen i rieni roi cydsyniad gwybodus ar gyfer y brechiad.

## A fydd angen i'r rhieni fod yn bresennol pan fydd y brechlyn yn cael ei roi?

Nid oes disgwyl i'r rhieni fynychu pan fydd eu plentyn yn cael y brechlyn.

## Beth sy'n digwydd os yw plentyn yn absennol o'r ysgol ar ddiwrnod y sesiwn frechu?

Pan fydd cydsyniad rhiant wedi cael ei roi i blentyn gael brechlyn y ffliw yn yr ysgol ond mae'r plentyn yn absennol ar ddiwrnod y sesiwn, bydd y tîm gofal iechyd yn

darparu llythyr ar gyfer y rhiant i'w galluogi i drefnu i'w plentyn gael brechlyn y ffliw yn eu meddygfa.

## A all staff yr ysgol gael y brechlyn?

Nid fel rhan o'r rhaglen brechu plant rhag y ffliw.

Nid yw Fluenz® Tetra, brechlyn chwistrell drwynol y ffliw a ddefnyddir yn y rhaglen hon, wedi ei drwyddedu i'w ddefnyddio ar gyfer oedolion.

Dylai staff ysgol sydd mewn mwy o berygl o gael cymhlethdodau yn sgil y ffliw oherwydd beichiogrwydd, oed neu gyflwr meddygol gael eu brechu rhag y ffliw yn flynyddol yn y ffordd arferol yn eu meddygfa neu fferyllfa gymunedol.

Gall rhai darparwyr addysg ddewis cynnig brechlyn y ffliw i athrawon neu staff yr ysgol trwy eu gwasanaethau iechyd galwedigaethol eu hunain.

Gall unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer brechlyn ffliw y GIG am ddim neu fel rhan o gynllun iechyd galwedigaethol ddewis prynu brechlyn y ffliw yn breifat o fferyllfa gymunedol.

## Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Ceir dolenni i adnoddau defnyddiol ar y rhyngrwyd isod.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch nyrs ysgol a enwir a all roi gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer rhieni a disgyblion i chi.

WHC (2015) 028 Rhaglen genedlaethol imiwneiddio rhag y ffliw 2015-16
http://gov.wales/topics/health/nhswales/circulars/health-professional/?skip=1&lang=cy

Mae mwy o wybodaeth am y ffliw a brechu ar gael yn
www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/f/article/flu,seasonal?locale=cy

Tudalen trechu'r ffliw ar y we
www.curwchffliw.org

Bydd taflen ffliw plant 2015 ar gael yn
www.nhsdirect.wales.nhs.uk/immunisations?locale=cy

Taflen gwybodaeth i gleifion Fluenz® Tetra
www.medicines.org.uk/emc/medicine/29109

Tudalen rhaglen brechu plant rhag y ffliw 2015/16 ar y we
www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/69533